Swyddfa Gartref

Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 – Ymgynghoriad Statudol ar y Cod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth

Cynnwys

Rhagair 3

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn 5

Crynodeb gweithredol 7

Cwmpas yr ymgynghoriad 8

Y cod ymarfer drafft 9

Statws heddluoedd nad ydynt yn diriogaethol 12

Yr asesiad effaith 13

Amdanoch chi 14

Cwestiynau 15

Amserlenni / Camau Nesaf 19

Gwybodaeth yr Ymgynghoriad 20

Rhagair y Gweinidog

Ers gosod y system gyntaf Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) canol tref yn King's Lynn yn 1987, mae'r defnydd o CCTV ac Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR) mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr wedi amlhau ymhlith cyrff cyhoeddus a phreifat.

Lleolir y systemau hyn am amrediad o ddibenion, ac yn gyffredinol fe'i croesewir fel presenoldeb cysurol ac i gadw'r cyhoedd yn ddiogel. Mae datblygiadau technolegol wedi cynyddu gallu systemau camerâu gwyliadwriaeth. Yn ei dro mae hyn yn wedi cynyddu cymhwyster gweithredwyr y systemau, yr heddlu a'r system gyfiawnder droseddol i ddiogelu pobl ac eiddo, ymchwilio i ddigwyddiadau a sicrhau cyfiawnder pan gyflawnir trosedd. Mae hefyd wedi cynyddu'r risg o ymyrryd â hawl dinesydd i breifatrwydd.

Mae'r llywodraeth yn ffafrio defnyddio CCTV ac ANPR fel offeryn i ymladd trosedd a diogelu'r cyhoedd. Mae'n cefnogi defnydd o wyliadwriaeth amlwg mewn man cyhoeddus ble mae ei leoliad ar gyfer nod gyfreithlon, yn angenrheidiol i ddiwallu angen enbyd, yn gymesur ac yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol. Fel y cyhoedd, mae'r llywodraeth yn disgwyl fod CCTV mor effeithiol â phosibl i ddiwallu diben datganedig ei leoliad a bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu preifatrwydd.

Rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus fod gwyliadwriaeth yn briodol a chymesur, a bod y rhai sy'n gweithredu'r systemau camerâu, neu'n defnyddio'r delweddau a gwybodaeth a gesglir, yn arddangos cywirdeb wrth wneud hynny ac yn cael eu dal yn atebol.

Dyma pam fod cytundeb llywodraeth y glymblaid yn cynnwys ymroddiad i reoleiddio pellach ar gyfer CCTV, sydd bellach wedi ei ddeddfu trwy'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu fframwaith rheoleiddiol a fwriedir i gydweddu ac i fod yn gydlynol â deddfwriaeth bresennol, megis y Ddeddf Diogelu Data 1998, Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Nid yw arloesi technegol a phroffesiynol yn sefyll yn yr unfan, felly rhaid i ni sicrhau fod unrhyw reoleiddio newydd yn briodol nawr ac yn y dyfodol.

Felly mae'n hymagwedd i reoleiddio pellach yn gynyddol, gyda ffocws cychwynnol ar oruchwyliaeth gan y wladwriaeth a model o hunan reoleiddio heb unrhyw archwiliad na gorfodaeth. Bydd yna god ymarfer yn ganllaw i weithredwyr systemau ac fe benodwyd Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth i annog mabwysiadu a chydymffurfiad â'r cod, adolygu ei weithrediad a darparu cyngor amdano.

Wedi ymgysylltu ac ymgynghori gydag ystod eang o bartïon a chanddynt fuddiant a'r cyhoedd, mae cod ymarfer drafft nawr wedi ei baratoi i'w gyhoeddi ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori hon. Mae'r cod drafft yn seiliedig ar 12 egwyddor arweiniol, ac am y tro cyntaf mae'n cyflwyno athroniaeth o wyliadwriaeth trwy gydsyniad. Mae'r llywodraeth yn gweld cyffelybiaeth bwysig gyda'r cydsyniad sefydledig o blismona trwy gydsyniad, sy'n seiliedig ar dybiaeth o dryloywder ac atebolrwydd i sicrhau cywirdeb swyddogion a staff yr heddlu wrth arfer eu grymoedd ar ran eu cyd ddinasyddion. Bydd y llywodraeth hon yn sicrhau, am y tro cyntaf erioed, fod yna fframwaith cadarn ar waith i ddiogelu'r cyhoedd rhag unrhyw ddefnydd eithafol neu anghyfrifol o CCTV neu ANPR.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich barnau ar gwmpas ac eglurder y cod drafft a'i asesiad effaith tebygol, ac mae hefyd yn ceisio sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i sefyllfa'r tri heddlu nad ydynt yn diriogaethol a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol parthed y cod. Mae hyn yn gyfnod pwysig yn rheoleiddio CCTV ac ANPR, felly mae'r llywodraeth wir yn gwerthfawrogi eich cyfraniad mewn ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn i ni allu ei addasu fel sydd angen a symud ymlaen yn hyderus.

Arglwydd Taylor o Holbeach

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Cwmpas yr ymgynghoriad

Pwnc yr ymgynghoriad hwn:	Paratoi cod ymarfer camerâu gwyliadwriaeth fel sy'n ofynnol dan Adran 29 y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, ac a ddylid gosod unrhyw un o'r tri heddlu nad ydynt yn diriogaethol a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol dan ddyletswydd i dalu sylw dyledus i'r cod ymarfer pan ddaw i rym.
Cwmpas yr ymgynghoriad hwn:	Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barnau'r rhai sydd â diddordeb yn y defnydd o gamerâu gwyliadwriaeth am god ymarfer drafft a baratowyd gan y Swyddfa Gartref fel canllaw y bydd awdurdodau perthnasol dan ddyletswydd i dalu sylw dyledus iddo, ac yr anogir gweithredwyr systemau camerâu gwyliadwriaeth eraill i'w fabwysiadu'n wirfoddol. Mae'r partïon hyn yn cynnwys y rhai mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi eu gosod dan ddyletswydd statudol i ymgynghori dan Adrannau 29(5) a 33(8) y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Mae'r cod ymarfer drafft ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref ynghyd â'r ddogfen ymgynghori hon.
Cwmpas Daearyddol:	Cymru a Lloegr. Mae hyn yn adlewyrchu cwmpas darpariaethau perthnasol y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 fel y sefydlwyd yn Adran 119.
Asesiad Effaith:	Mae Asesiad Effaith yn cwmpasu Cymru a Lloegr ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref, ynghyd â'r ddogfen ymgynghori hon.

Gwybodaeth Sylfaenol

Ar gyfer:	Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd.
Corff sy'n gyfrifol am yr ymgynghoriad hwn:	Y Swyddfa Gartref
Hyd:	Chwe wythnos
Ymholiadau ac ymatebion:	Gallwch ymateb i unrhyw neu bob un o'r adrannau yn yr ymgynghoriad. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 21 Mawrth 2013.
Gallwch gwblhau'r ffurflen ar-lein yn:	www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/v.asp?i=69377oduov
Neu gallwch anfon eich ymateb trwy'r post at:	Y Swyddfa Gartref Police Transparency Unit 6th Floor Fry, 2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF

Ffyrdd eraill o gymryd rhan: Ymgynghoriad ar-lein yw hwn. Cysylltwch â'r Swyddfa Gartref, Police Transparency Unit, 6th Floor Fry, 2 Marsham Street, London, SW1P 4DF os ydych angen gwybodaeth ar unrhyw fformat arall, megis Braille, print bras neu sain. Mae'n ofyniad i'r Adran gynnig, a darparu ar gais, y fformatau hyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2012. Mae fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ymgynghori yn cael ei darparu.

Wedi'r ymgynghoriad: Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael eu gosod ar wefan y Swyddfa Gartref.

Cydymffurfiad ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth: Mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio â'r egwyddorion.

Cefndir

Cyrraedd y cam hwn: Mae'r Swyddfa Gartref wedi datblygu'r cynigion hyn mewn ymgynghoriad â'r adrannau canlynol o'r llywodraeth: Cymunedau a Llywodraeth Leol, Yr Adran Drafnidiaeth, Swyddfa Cymru, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a'r Adran Addysg. Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Ymgysylltiad blaenorol: Ymgynghorwyr â'r cyhoedd ac amrediad eang o bartïon a chanddynt fuddiant ar natur rheoleiddio a datblygiad cod ymarfer mewn ymarfer ymgynghori 12 wythnos a ddaeth i ben ym Mai 2011. Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad hwnnw yn Rhagfyr 2011[1] gan restru'r holl ymatebwyr.

Ers hynny, cafwyd ymgynghori anffurfiol pellach gyda phartïon allweddol a chanddynt fuddiant[2], gan gynnwys cylchrediad o ddrafft cynnar o'r cod ymarfer. Mae ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol parhaus wedi helpu llunio natur y fframwaith rheoleiddiol a'r cod ymarfer, ac i arwain creu manylion y cod ymarfer. Er enghraifft, helpodd adborth ar ddrafft cynnar bennu strwythur y cod drafft, i sicrhau fod yna fwy o eglurder o ran y ffin â rheoleiddio dan y Ddeddf Diogelu data 1998, a'r ymagwedd orau o ran cynnwys safonau technegol a galwedigaethol.

---

1 Gellir dod o hyd i'r ddogfen ymgynghori ac ymateb y llywodraeth yn: http://www.homeoffice.gov.uk/publications consultations/cons-2011-cctv/

2 Mae partïon â budd allweddol yr ymgysylltwyd â nhw yn cynnwys rheolyddion perthnasol (y Rheolydd CCTV Dros Dro cyn 13 Medi 2012, a'r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth wedi hynny, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth), cynrychiolwyr gweithredwyr camerâu gwyliadwriaeth, y diwydiant diogelwch a mudiadau hawliau sifil.

Crynodeb gweithredol

Mae Cytundeb y Glymblaid yn sefydlu ymroddiad i reoleiddio pellach o CCTV.

Mae'r llywodraeth eisiau sicrhau ble bynnag y cyflawnir gwyliadwriaeth agored mewn man cyhoeddus yn defnyddio system camerâu gwyliadwriaeth, megis Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) neu Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR), gall y cyhoedd deimlo'n hyderus fod y camerâu yno i'w cefnogi, ac nid i ysbïo arnynt.

Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy ddarpariaethau yn y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (PoFA). Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi'r llywodraeth i gyhoeddi cod ymarfer fel canllaw a fydd yn rheoleiddio systemau camerâu gwyliadwriaeth ymhellach, gan gydweddu deddfwriaeth a rheoleiddio presennol perthnasol dan y Ddeddf Diogelu Data 1998, Deddf Hawliau dynol 1998 a'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Maent hefyd yn creu penodiad statudol newydd o Gomisiynydd Camerâu Goruchwyliaeth.

Cyhoeddir y cod ymarfer drafft ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori hon. Bwriedir i'r ymgynghoriad hwn fodloni gofynion Adran 29(5) y PoFA ar gyfer ymgynghori statudol, a galluogi'r llywodraeth i ystyried unrhyw addasiad angenrheidiol i'r drafft cyn ceisio cymeradwyaeth Seneddol i gyhoeddi'r cod dan Adran 30 y PoFA.

Ystyrir bod hyder y cyhoedd fod system camerâu gwyliadwriaeth yn cael eu defnyddio'n briodol, heb ymyrraeth anghymesur yn yr hawl i fywyd preifat a theuluol, yn ddibynnol i raddau helaeth ar dryloywder, cywirdeb ac atebolrwydd gweithredwr y system. Yn y cod ymarfer drafft, mae'r llywodraeth wedi sefydlu cyffelybiaeth gyda'r cydsyniad sefydledig o blismona trwy gydsyniad ac wedi disgrifio diben y cod fel helpu sefydlu goruchwyliaeth trwy gydsyniad.

Mae'r cod drafft yn seiliedig ar 12 egwyddor arweiniol y gellir annog gweithredwyr systemau i'w mabwysiadu a dilyn. Mae wedi ei baratoi i gydweddu, a dod â chydlyniad i ddeddfwriaeth a rheoleiddio presennol heb gyflwyno beichiau a biwrocratiaeth newydd ddiangen.

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barnau ar baratoi'r cod ymarfer hwnnw, ac yn arbennig ar gwmpas ac eglurder ac effaith cod drafft.

Mae'r llywodraeth hefyd eisiau ceisio barnau ar a ddylid ychwanegu unrhyw un o'r tri heddlu nad ydynt yn diriogaethol a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol at y rhestr o awdurdodau perthnasol dan Adran 33(5) y PoFA, ac felly dan ddyletswydd i dalu sylw dyledus iddo, o'r dyddiad y bydd y cod ymarfer yn dod i rym. Wrth geisio'r barnau hyn, mae'n bwriadu bodloni'r gofynion dan Adran 33(8) o'r PoFA ar gyfer ymgynghori statudol.

Cwmpas yr ymgynghoriad

Mae'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn cynnwys darpariaethau[3] i reoleiddio systemau camerâu gwyliadwriaeth yng Nghymru a Lloegr, sy'n gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cod ymarfer fel canllaw a phenodi Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barnau ar y cod ymarfer drafft, ac yn arbennig ar gwmpas ac eglurder ac effaith y cod drafft a gyhoeddir ar wefan y Swyddfa Gartref ynghyd â'r ddogfen ymgynghorol hon. Wrth wneud hynny, mae'r llywodraeth eisiau sicrhau fod paratoi'r cod ymarfer wedi arwain at ddogfen a fydd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni'r amcanion polisi i reoleiddio camerâu gwyliadwriaeth. Bwriedir i'r ymgynghoriad hwn fodloni gofynion Adran 29(5) ar gyfer ymgynghori statudol wrth baratoi cod o'r fath, a galluogi'r llywodraeth i ystyried unrhyw addasiad angenrheidiol i'r drafft cyn ceisio cymeradwyaeth Seneddol i gyhoeddi'r cod dan Adran 30.

Mae'r llywodraeth hefyd eisiau ceisio barnau ar a ddylid ychwanegu unrhyw un o'r tri heddlu nad ydynt yn diriogaethol a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol at y rhestr o awdurdodau perthnasol dan Adran 33(5), ac felly dan ddyletswydd i dalu sylw dyledus iddo, o'r dyddiad y bydd y cod ymarfer yn dod i rym. Wrth geisio'r barnau hyn, mae'n bwriadu bodloni'r gofynion dan Adran 33(8) ar gyfer ymgynghori statudol.

[3] Adrannau 29 i 36.

Y cod ymarfer drafft

Pwrpas

Mae'r llywodraeth eisiau sicrhau ble bynnag y cyflawnir gwyliadwriaeth agored mewn man cyhoeddus yn defnyddio system camerâu gwyliadwriaeth, megis Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) neu Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR), gall y cyhoedd deimlo'n hyderus fod y camerâu yno i'w cefnogi, ac nid i ysbïo arnynt. Mae datblygiadau mewn technoleg ddigidol wedi arwain at bryderon ynglŷn â chymesuredd systemau o'r fath, a'r amhariad posibl ar hawliau sifil. Mae gan y cyhoedd hefyd ddisgwyliadau cyfreithlon fod unrhyw system camerâu gwyliadwriaeth gweithredol yn bodloni ei ddiben datganedig.

Mae darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn galluogi'r llywodraeth i gyhoeddi cod ymarfer fel canllaw a fydd yn rheoleiddio systemau camerâu gwyliadwriaeth ymhellach, gan gydweddu deddfwriaeth a rheoleiddio presennol perthnasol dan y Ddeddf Diogelu Data 1998, Deddf Hawliau dynol 1998 a'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Cyhoeddir drafft o'r cod ymarfer ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori hon. Nod y rheoleiddio pellach a gyflwynir yn y cod ymarfer hwn yw cynyddu tryloywder a chymesuredd ar ran gweithredwr system, effeithlonrwydd y system, ac i helpu sicrhau cydymffurfiad gyda dyletswyddau cyfreithiol eraill.

Ystyrir bod hyder y cyhoedd fod system camerâu gwyliadwriaeth yn cael eu defnyddio'n briodol, heb ymyrraeth anghymesur yn yr hawl i fywyd preifat a theuluol, yn ddibynnol i raddau helaeth ar dryloywder, cywirdeb ac atebolrwydd gweithredwr y system. Yn y cod ymarfer drafft, mae'r llywodraeth wedi sefydlu cyffelybiaeth gyda'r cydsyniad sefydledig o blismona trwy gydsyniad ac wedi disgrifio diben y cod fel helpu sefydlu goruchwyliaeth trwy gydsyniad.

Cwmpas

Gweithredir systemau camerâu gwyliadwriaeth gan ystod eang o gyrff yn y sector cyhoeddus, preifat a dielw am ystod eang o ddibenion. O ganlyniad, mae'r amgylchedd rheoleiddio yn gymhleth. I gydnabod y cymhlethdod hwnnw, mae'r llywodraeth yn dilyn ymagwedd gynyddol i reoleiddio, gan ddechrau gyda sefydlu'r sylfaeni, ac yna cadw gweithrediad y cod ymarfer dan arolwg.

Mae'r cod yn berthnasol i ddefnydd o systemau camerâu gwyliadwriaeth sy'n weithredol mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, p'un a oes yna unrhyw wylio byw, recordio delweddau neu wybodaeth neu ddata cysylltiedig neu beidio. Fodd bynnag, nid yw'n cwmpasu gwyliadwriaeth gudd, ac nid yw'n berthnasol i ddefnydd domestig o CCTV. Mae gwyliadwriaeth gudd gan awdurdod cyhoeddus wedi ei gynnwys dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Mae'r llywodraeth yn cydnabod y gallai unigolion brofi anawsterau a thrallod o ganlyniad i system CCTV domestig cymydog, nad yw'n amodol i reoleiddio dan y Ddeddf Diogelu Data 1998. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa parthed CCTV domestig.

Effaith

Mewn cydnabyddiaeth o ymagwedd gynyddol y llywodraeth i'r maes hwn, ac awydd i gadw beichiau a biwrocratiaeth newydd i isafswm, mae Adran 33(1) y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn gosod dyletswydd i dalu sylw dyledus i'r cod ar awdurdodau perthnasol a ddynodwyd dan Adran 33(5). I ddelio â phryderon penodol ynglŷn â gwyliadwriaeth gan y wladwriaeth, gosodwyd dyletswydd gychwynnol i dalu sylw dyledus ar awdurdodau lleol[4], prif swyddogion heddluoedd, a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Bydd gweithredwyr systemau eraill yn cael eu hannog i fabwysiadu'r cod ar sail wirfoddol. Mae yna rym dan Adran 33(5) i addasu'r rhestr o awdurdodau perthnasol, a gall yr Ysgrifennydd Cartref ystyried hyn unwaith y bydd y cod wedi setlo ac o ganlyniad i'w effaith.

Gwelodd ymgynghoriad cynharach ar natur rheoleiddio a'r cod ymarfer alwadau am rymoedd archwilio, ymchwilio a gorfodi statudol. Nid yw grymoedd o'r fath wedi eu cynnwys yn y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 gan fod y llywodraeth eisiau caniatáu cyfle i fecanweithiau cydymffurfiad gwirfoddol i ddatblygu ac i finimeiddio unrhyw feichiau newydd ar fusnesau neu bwrs y wlad.

Egwyddorion Arweiniol

Mae'r cod ymarfer yn sefydlu 12 egwyddor arweiniol a ystyrir i fod yn sylfaen i sefydlu a chynnal goruchwyliaeth trwy gydsyniad. Mae'r egwyddorion arweiniol hyn wedi eu hysbysu gan adolygiad o ddefnydd yr heddlu o ANPR dan arweiniad Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ac i'w gyhoeddi gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn y dyfodol agos. Nid oedd yn bosibl cymhwyso pob agwedd o'r 14 rheol aur ar gyfer ANPR yn hawdd iawn i gamerâu gwyliadwriaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, bwriedir i'r set ddilynol o egwyddorion arweiniol dynnu arfer da a rhwymedigaethau cyfreithiol presennol ynghyd i greu fframwaith reoleiddio statudol glir a chynhwysfawr y gall gweithredwyr systemau a'r cyhoedd ei deall.

Nid yw'r cod yn rhagnodol ynglŷn â manylion sut ddylid dilyn yr egwyddorion arweiniol yn ymarferol, neu ynglŷn ag unrhyw safonau gweithredol, technegol neu gymhwyster penodol y dylai gweithredwr system ddilyn. O ystyried yr amrediad ehangach o amgylchiadau y gallai fod angen i weithredwr system ystyried, nid yw'r llywodraeth eisiau datblygu lefel o fanylion rheoleiddiol na fydd o reidrwydd yn briodol ym mhob achos (ac felly angen canllaw penodol pellach), neu sy'n mygu arloesi, dyblygu canllaw presennol, neu'n methu cadw cyfrededd mewn maes ble mae disgwyl i dechnoleg ac ymarfer proffesiynol ddal i esblygu.

[4] Gweler A29(5) am restr lawn o gyrff cyhoeddus a ddynodwyd i fod yn awdurdodau perthnasol.

Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth

Mae'r cod yn sefydlu rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, sy'n cynnwys darparu cyngor ynglŷn â'r cod. Mae'r cod yn glir y bydd disgwyl i'r Comisiynydd ddarparu cyngor am safonau gweithredol, technegol a chymhwyster perthnasol. Fel cam cyntaf tuag at wneud hynny, mae'r Comisiynydd yn sefydlu Grŵp Safonau gyda chynrychiolaeth eang i gyflawni adolygiad tirlun o'r safonau perthnasol sydd ar gael ar hyn o bryd, ac i nodi unrhyw fylchau arwyddocaol all fod angen eu llenwi.

Mae'r cod hefyd yn sefydlu disgwyliadau ynglŷn â sut fydd y Comisiynydd yn gweithio gyda rheolyddion eraill, gan gynnwys y Comisiynydd Gwybodaeth a'r Prif Gomisiynydd Goruchwyliaeth.

Meini prawf llwyddiant

Mae'r Swyddfa Gartref wedi datblygu set o feini prawf llwyddiant drafft ar gyfer adolygu gweithrediad ac effaith rheoleiddio, gan gynnwys y cod ymarfer, wedi iddo ddod i rym. Mewn maes o reoleiddio ble nad oes llawer o ddarpariaeth o ddata cenedlaethol cynhwysfawr ynglŷn ag ymarfer ac effeithlonrwydd, bu'n anodd cynhyrchu meini prawf ar gyfer cwblhau asesiad meintiol yn erbyn llinell sylfaen bresennol. Felly, mae'r meini prawf llwyddiant drafft yn ansoddol eu natur. Wedi cytuno, byddant ar gael i'r Comisiynydd Camerâu Goruchwyliaeth i'w ystyried yn rhan o'i adolygiad ar weithrediad y cod.

Sefydlir y rhain isod:

Dylai goruchwyliaeth o systemau camerâu goruchwylio dan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012:

1) Ddarparu eglurder ar ddiben a chwmpas, yn arbennig o ran diffinio systemau camerâu goruchwylio, man cyhoeddus, defnydd amlwg a phreifatrwydd.
2) Fod yn hawdd i'w deall i'r cyhoedd a'r gweithredwyr system.
3) Sicrhau fod gweithredwyr system yn dryloyw ac yn gymesur o ran cydbwyso ystyriaethau preifatrwydd a diogelwch mewn unrhyw leoliad o systemau, ac maent yn adolygu yn rheolaidd os yw'r system yn bodloni ei ddiben datganedig.
4) Gwella effeithlonrwydd systemau camerâu gwyliadwriaeth i ddarparu gwell ansawdd a mwy o ddelweddau hygyrch i'w defnyddio yn y system gyfiawnder droseddol.
5) Galluogi rheolaeth o ddiogelwch cyhoeddus (yn cynnwys ymchwiliad i a chanfod troseddau).
6) Cymorth pellach i sicrhau cydymffurfiad gyda deddfwriaeth arall yn effeithio ar ddefnydd o systemau camerâu goruchwyliaeth, megis Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diogelu Data 1998 a'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, heb unrhyw groesosodiadau nac anghysondebau a bylchau neu orgyffwrdd minimol.
7) Dilyn gwell egwyddorion rheoleiddio, cyflwyno beichiau biwrocratiaeth a rheoleiddiol minimol.
8) Cynnwys digon o hyblygrwydd i ymateb i ddatblygiadau mewn technoleg a safonau galwedigaethol.
9) Gallu gwahaniaethu rhwng gwahanol ddibenion systemau camerâu gwyliadwriaeth.
10) Sicrhau mabwysiadu gwirfoddol eang gan weithredwyr systemau.

Statws heddluoedd nad ydynt yn diriogaethol a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol

Mae'r llywodraeth eisiau sefydlu dynesiad cynyddol i reoleiddio systemau camerâu gwyliadwriaeth gyda biwrocratiaeth a beichiau minimol. Felly, y man cychwyn dan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 yw cod ymarfer sy'n darparu canllaw y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol dalu sylw dyledus iddo, ac y bydd gweithredwyr systemau eraill yn cael eu hannog i'w fabwysiadu ar sail wirfoddol yn bennaf.

I ddelio â phryderon ynglŷn â gwyliadwriaeth gan y wladwriaeth, gosodwyd y ddyletswydd i dalu sylw dyledus ar awdurdodau lleol[5], prif swyddogion heddluoedd, a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn gyntaf.

O ganlyniad i faterion technegol drafftio yn y ddeddfwriaeth, er y bydd prif swyddogion y 43 heddlu tiriogaethol yng Nghymru a Lloegr dan ddyletswydd i dalu sylw dyledus, mae'r tri heddlu nad ydynt yn diriogaethol a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol yn syrthio tu allan i'r ddyletswydd hon. Y pedwar corff yw:

- Heddlu Trafnidiaeth Prydain
- Heddlu Niwclear Sifil
- Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn
- Yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (a fydd yn dod yn rhan o'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol yn amodol i ddeddfiad y Bil Troseddau a'r Llysoedd)[6]

I sicrhau nad oes llai o hyder ymysg y cyhoedd mewn defnydd o oruchwyliaeth amlwg gan y pedwar o heddluoedd hyn nag sydd yn ei ddefnydd gan heddluoedd tiriogaethol, mae'r llywodraeth wedi penderfynu ceisio barnau ar a ddylid hefyd greu dyletswydd i'r heddluoedd hyn dalu sylw dyledus i'r cod unwaith y daw i rym.

Ymddengys mai'r ystyriaethau allweddol yw p'un a yw heddlu yn cynnal systemau camerâu goruchwyliaeth amlwg mewn mannau cyhoeddus neu'n defnyddio cynnyrch systemau o'r fath, a chymesuredd gosod y ddyletswydd hon ar heddlu gyda chylch gorchwyl gweithredu sy'n wahanol iawn i heddlu tiriogaethol.

Mae Adran 33(5) yn rhoi'r hawl i ddewis i'r Ysgrifennydd Cartref i addasu'r rhestr o awdurdodau perthnasol, yn amodol i ymgynghoriad a chytundeb y Senedd.

Felly rydym yn ceisio eich barnau ar a ddylai'r Ysgrifennydd Cartref geisio cymeradwyaeth y Senedd i addasu Adran 33(5) trwy gynnwys unrhyw un o'r pedwar corff hyn ar yr un pryd ag y daw'r cod i rym.

---

5 Gweler A29(5) am restr lawn o gyrff cyhoeddus a ddynodwyd i fod yn awdurdodau perthnasol

6 Mae'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) yn asiantaeth gorfodi'r gyfraith genedlaethol yn hytrach na heddlu. Mae wedi ei sefydlu fel corff corfforaethol dan Adran 1 Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 a gellir rhoi grymoedd cwnstabl i aeloda o'i staff. Mae'r Bil Troseddau a'r Llysoedd yn ceisio gosod statws tebyg ar yr Asiantaethau Troseddau Cenedlaethol.

Yr asesiad effaith

Paratoir asesiad effaith i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r dadansoddiad a thystiolaeth ar gyfer opsiwn polisi. Mae'r asesiad effaith ar gyfer y cod ymarfer wedi ei gyhoeddi ar wefan y Swyddfa Gartref, ynghyd â'r ddogfen ymgynghori hon.

Mae'r asesiad effaith yn cynnwys amcangyfrif gorau mai'r costau gwerth presennol net dros ddeng mlynedd i'r awdurdodau perthnasol fyddai £12.9miliwn, gyda chostau blynyddol cyfartalog o £1.5miliwn. Mae hefyd yn sefydlu'r tybiaethau sy'n sail i gostau a manteision bwrw ymlaen.

Ni fydd yr asesiad effaith wedi ei gwblhau nes y bydd yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori hwn wedi eu dadansoddi.

Amdanoch chi

Mae'r manylion hyn yn wirfoddol a byddant yn cael eu trin fel data personol gan y Swyddfa Gartref mewn cydymffurfiad â chanllaw'r llywodraeth ar gadw gwybodaeth bersonol.

1) Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi neu'r sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli orau? (dewiswch un os gwelwch yn dda)

- Awdurdod lleol;
- Heddlu;
- Comisiynydd yr heddlu a throseddu;
- Gweithredwr system camerâu gwyliadwriaeth (awdurdod cyhoeddus);
- Gweithredwr system camerâu gwyliadwriaeth (nid yn awdurdod cyhoeddus);
- Cynllunydd, cyflenwr, gosodwr neu gynhaliwr system camerâu gwyliadwriaeth;
- Cyflenwr diogelwch;
- Corff rheoleiddio, corff safonau neu arolygiaeth;
- Elusen / mudiad / grŵp ymgyrchu hawliau dynol;
- Corff cynrychiadol;
- Y cyhoedd;
- Arall (nodwch);
- Ddim eisiau dweud

2) Pa fudiad ydych chi'n cynrychioli ? (opsiynol)

3) A yw'ch mudiad chi'n gweithredu yn: (dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Lloegr;
- Cymru;
- Rhywle arall (noder)
- Ddim eisiau dweud
- Ddim yn berthnasol

4) Beth yw eich diddordeb mewn rheoleiddio camerâu diogelwch: (dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Mewn CCTV;
- Mewn ANPR;
- Arall (nodwch)
- Ddim eisiau dweud
- Ddim yn berthnasol

Cwestiynau

Ynglŷn â'r cod ymarfer drafft:

5) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol ar gwmpas ac eglurder y cod ymarfer drafft? (Dewiswch un opsiwn ar gyfer pob datganiad os gwelwch yn dda).

- Byddwn yn cefnogi gweithrediad y cod ymarfer drafft hwn
- Mae'r cod ymarfer yn amlinellu cwmpas y defnydd o gamerâu gwyliadwriaeth a fydd yn amodol i reoleiddio yn glir
- Mae'r cod ymarfer yn amlinellu'n glir beth mae goruchwyliaeth trwy gydsyniad yn ei olygu
- Bydd y cod ymarfer yn sicrhau gwell tryloywder ar ran gweithredwyr systemau
- Bydd y cod ymarfer yn helpu diogelu'r hawl i barch tuag at fywyd preifat a theuluol.
- Bydd y cod ymarfer yn helpu cynnydd effeithlonrwydd system camerâu gwyliadwriaeth i ddiwallu ei ddiben datganedig

a) Cytuno'n gryf

b) Tueddol o gytuno

c) Tueddol o anghytuno

d) Anghytuno'n gryf

e) Ddim yn siŵr

Rhowch resymau i esbonio'ch atebion uchod:

6) Mae'r cod ymarfer yn amlinellu sut fydd y rhwymedigaethau a goblygiadau a osodir ar awdurdodau perthnasol (a fydd wedi eu rhwymo gan ddyletswydd i dalu sylw dyledus i'r cod) yn amrywio i'r rhai a osodir ar weithredwyr systemau eraill (a fyddai'n cael eu hannog i fabwysiadu'r cod ar sail wirfoddol).

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno fod y cod ymarfer yn gwneud y rhwymedigaethau a goblygiadau i'r gwahanol grwpiau hyn o weithredwyr systemau yn glir? (dewiswch un)

a) Cytuno'n gryf

b) Tueddol o gytuno

c) Tueddol o anghytuno

d) Anghytuno'n gryf

e) Ddim yn siŵr

Rhowch resymau i esbonio'ch ateb uchod:

7) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno fod y 12 egwyddor arweiniol a sefydlir yn y cod drafft yn berthnasol i reoleiddio systemau camerâu gwyliadwriaeth? (dewiswch un)

   a) Cytuno'n gryf
   b) Tueddol o gytuno
   c) Tueddol o anghytuno
   d) Anghytuno'n gryf
   e) Ddim yn siŵr

Rhowch resymau dros eich ateb uchod, ac amlinellu unrhyw bryderon penodol sydd gennych ynglŷn â rheoleiddio camerâu gwyliadwriaeth nad yw'r 12 egwyddor arweiniol yn debygol o ddelio â nhw:

8) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ar sut mae'r cod ymarfer yn cyd-fynd â rolau a rheoliadau presennol? (dewiswch un ar gyfer pob datganiad)

- Mae'r berthynas rhwng y cod ymarfer hwn a gofynion rheoleiddio presennol (dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000) wedi ei hamlinellu'n glir.
- Mae rôl, swyddogaethau a dulliau gweithredu'r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth wedi eu sefydlu'n glir ac yn arwahanol i rai'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth.

   a) Cytuno'n gryf
   b) Tueddol o gytuno
   c) Tueddol o anghytuno
   d) Anghytuno'n gryf e)Ddim yn siŵr

Rhowch resymau i esbonio'ch atebion uchod:

9) Ceir cyfres o feini prawf ar gyfer rheoleiddio camerâu gwyliadwriaeth dan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 ar dudalen 11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno'r cod ymarfer a'r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth yn sicrhau fod y meini prawf llwyddiant hyn ar gyfer rheoleiddio wedi eu bodloni? (dewiswch un)

a) Cytuno'n gryf
b) Tueddol o gytuno
c) Tueddol o anghytuno
d) Anghytuno'n gryf
e) Ddim yn siŵr

Rhowch resymau i esbonio'ch ateb uchod:

Ynglŷn â statws heddluoedd nad ydynt yn diriogaethol a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol

10) Ar gyfer pob un o'r cyrff canlynol, nodwch a ydych yn credu y dylid, neu na ddylid, eu gwneud yn awdurdod perthnasol dan Adran 33(5):

a) Dylid
b) Na ddylid
c) Ddim yn siŵr

- Heddlu Trafnidiaeth Prydain (rhowch resymau dros eich ateb)
- Heddlu Niwclear Sifil (rhowch resymau dros eich ateb)
- Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (rhowch resymau dros eich ateb)
- Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (rhowch resymau dros eich ateb)

Ynglŷn â'r Asesiad Effaith

11) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r costau a buddiannau a amlinellwyd yn yr asesiad effaith? (dewiswch un)

a) Cytuno'n gryf
b) Tueddol o gytuno
c) Tueddol o anghytuno
d) Anghytuno'n gryf
e) Ddim yn siŵr

Rhowch resymau i esbonio'ch ateb uchod:

Ynglŷn ag unrhyw agwedd arall o'r cod ymarfer

12) Yn olaf, os oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech i ni eu hystyried, ar unrhyw elfen o'r cod ymarfer drafft nad ydych eisoes wedi ei grybwyll, amlinellwch nhw isod:

13) Os ydych yn hapus i ni gysylltu â chi os bydd gennym unrhyw ymholiadau ynglŷn ag unrhyw un o'ch ymatebion, rhowch eich cyfeiriad e-bost os gwelwch yn dda. Mae hyn yn ddewisol.

Os ydych chi'n darparu'ch cyfeiriad e-bost, efallai y byddwn yn ei ddefnyddio i ofyn i chi am ragor o wybodaeth am eich ymateb.

Amserlenni / camau nesaf

Bydd y Swyddfa Gartref yn dadansoddi'r ymatebion ac wedi i'r ymgynghoriad hwn gau a'r dadansoddiad gael ei gwblhau, bydd yn hysbysu ei benderfyniadau ynglŷn â gwaith datblygu pellach sy'n angenrheidiol cyn y gellir cyflwyno'r cod ymarfer drafft gerbron y Senedd i'w gymeradwyo.

Bydd ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Swyddfa Gartref. Yn amodol i'r penderfyniadau hynny, a chynnydd mewn meysydd eraill, mae'r Swyddfa Gartref yn rhagweld cyflwyno'r cod ymarfer drafft a'r Gorchymyn drafft yn darparu ar gyfer ei roi ar waith gerbron y Senedd erbyn diwedd Ebrill 2013.

Yn amodol i'r ystyriaeth a chymeradwyaeth o'r Gorchymyn hwnnw gan ddau Dŷ'r Senedd, dylai'r cod ymarfer fod yn weithredol oddeutu diwedd Mehefin 2013.

Yn y cyfamser, mae'r Swyddfa Gartref yn deall y bydd y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth yn bwrw ymlaen ag adolygiad o safonau gweithredol, technegol a chymhwyster perthnasol gyda'r bwriad o ddarparu cyngor i weithredwyr systemau yn hwyrach eleni.

Ymatebion: Cyfrinachedd ac Ymwadiad

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom at gydweithwyr o fewn y Swyddfa Gartref, y llywodraeth neu asiantaethau cysylltiedig. Gallai gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn amodol i'w gyhoeddi neu ddatgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth. Yn bennaf, y rhain yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Os ydych am i wybodaeth arall a ddarparwch gael ei thrin fel cyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna God Ymarfer statudol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn cymryd i ystyriaeth eich esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Adran.

Gwybodaeth yr ymgynghoriad

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydedd blaid.

Egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth

Mae hwn yn ymgynghoriad targedig, ond cyn â phosibl mae'r Ymgynghoriad yn dilyn egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth – a amlinellir isod:

- Bydd adrannau yn dilyn detholiad o amserlenni yn hytrach na dewis cyfnod 12 wythnos yn ddiofyn, yn arbennig ble mae ymgysylltu sylweddol eisoes wedi digwydd;
- Bydd angen i adrannau roi mwy o ystyriaeth i sut maent yn ymgysylltu ag ac yn ymgynghori â'r rhai sydd wedi eu heffeithio;
- Dylai'r ymgynghoriad fod yn 'ddigidol yn ddiofyn', ond dylid defnyddio dulliau eraill ble mae angen i gyrraedd y grwpiau sydd wedi eu heffeithio gan bolisi; ac
- Bydd angen parhau i barchu egwyddorion y Compact rhwng y llywodraeth a'r sector gwirfoddol a chymunedol.

Mae'r canllaw llawn ar gael o:

http://www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/consultation-principles-guidance

ISBN: 978-1-78246-112-8
© Hawlfraint y Goron 2013